**Fforwm Gweithredu Bioamrywiaeth Mamaliaid Cymru**
**Cofnodion y 9fed Cyfarfod**

27 Chwefror 2013, tros gynhadledd fideo

**1. Croeso, cyflwyniadau**
**Yn bresennol**:
Bangor Liz Halliwell (CCGC - Cofnodion), (CCGC - Cofnodion), Ceri Morris, (CCGC – MISE), Catrin Slade (myfyriwr lleoliad gwaith, CCGC), Iolo Lloyd (CCC)

Llandeilo Steve Lucas (YCY - Cadeirydd), Isabel Macho (Cyngor Sir Gâr), Jenny MacPherson (VWT – MISE), Lizzie Wilberforce (WTSWW), Henry Schofield (VWT), Mike Jenkins (AyrAC), Hazel Thomas (CCGC)

**Ymddiheuriadau**: Jean Matthews (CCGC) Rob Strachan (AyrA), Nida Al-Fulaij (PTES), Jane Garner (CCGC), Matthew Ellis (CCGC), Claire Bryant (CCGC), Ian Danby (BASC), Rob Parry (WTSWW), Kate Williamson (Cymdeithas y Mamaliaid), Sarah Bird (Sw Caer), Paul Sinnadurai (BBNP), Dan Forman (Prifysgol Abertawe)

**2. Diweddariad ar Brosesau CGB**
Cyfarfu'r Grŵp Rhywogaethau Arbenigol ym mis Chwefror ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch pa mor gynhyrchiol yr oedd y cyfarfod. Nododd Iolo Lloyd fod Fforwm Adar Cymru'n paratoi papur ar sut mae'r grŵp yn rhyngweithio â PBC a grwpiau ecosystemau.

**PWYNT GWEITHREDU 1 –** LH i ofyn i Sian Whitehead am bapur Fforwm Adar Cymru ar gysylltiadau â grwpiau Ecosystemau.

Adrodd Erthygl 17 – adroddodd LH fod adrodd ar lefel y wlad wedi'i gwblhau a bod JNCC bellach yn cydgrynhoi adroddiadau cyfunedig ar lefel y DU. Bydd adroddiadau wedi'u cwblhau'n destun ymgynghori dros yr wythnosau nesaf.

Cyfarfod CGB ar bathewod – darparodd LH ddiweddariad o'r cyfarfod Cymru a Lloegr diweddar. Mae cofnodion ar gael gan Liz ar gais. Nododd LH fod y Gogledd-ddwyrain bellach yn datblygu cynlluniau cadwraeth rhywogaethau (yn lle CGB) ar gyfer eu holl famaliaid adran 41 o dan grŵp Tacson Mamaliaid Lloegr. Sylwodd HS y byddai wedi bod yn ddefnyddiol i gynrychiolydd CCGC fynd i'r grŵp Tacson Mamaliaid.

Mae'r grŵp CGB Ystlumod i fod i gwrdd ar ddechrau mis Ebrill.

Mae'r Gymdeithas Famaliaid wedi llwyddo i sicrhau grant gan CCGC ar gyfer swyddog i Gymru. Bydd y swydd yn canolbwyntio ar roi'r CGB llygod y cynhaeaf a draenogod ar waith yn ogystal â darparu cefnogaeth ar gyfer cofnodi mamaliaid. Bwriedir cynnal cyfweliadau ar gyfer y swydd tua diwedd mis Mawrth.

Wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru gael ei sefydlu mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch ffrydiau ariannu yn y dyfodol i gefnogi gwaith y '3ydd sector'. Mae rhywfaint o bryder y gallai fod yn ymarfer caffael yn hytrach nag ymagwedd cymorth grant.

**3. Diweddariadau prosiectau/partneriaid**

Cylchredwyd diweddariadau cyn y cyfarfod. Awgrymodd IL y byddai'n ddefnyddiol petai pobl yn gallu adnabod unrhyw ganlyniadau o brosiectau ac adroddiadau a gynhyrchwyd.

Amlinellodd Mike Jenkins yr achos dyfrgwn a physgodfeydd y mae Rob Strachan yn ymwneud ag ef ar hyn o bryd. Mae AyrA yn cael ei siwio gan unigolyn sy'n honni mai'r asiantaeth sy'n gyfrifol am ddifrod a achoswyd i'w bysgodfa gan ddyfrgwn. [*Nodyn ar ôl y cyfarfod – gwrthodwyd yr achos yn erbyn AyrA*]

Mae Swyddog Pobl a Belaod Coed VWT (David Bavin) bellach wedi dechrau. Ariennir y prosiect gan ardoll bagiau cludo'r Co-op. Bydd David yn ymgymryd ag arolygon agwedd y cyhoedd gan ddefnyddio sioeau teithiol ac anfon taflenni, arolygon tiwb gwallt (yn canolbwyntio ar ardal Cwm Rheidol) a sgyrsiau lleol. Mae tiwbiau gwallt wedi'u sefydlu mewn coetiroedd lleol yn agos i'r lleoliad y daethpwyd o hyd i fela'r coed yn Aberhafesp.

Mae'r prosiect MISE project yn cynnal dau ddigwyddiad ym mis Mawrth ar gyfer gwirfoddolwyr ac aelodau o Grŵp Ymgynghorol MISE i ddathlu pwynt hanner ffordd y prosiect MISE.

**4. Cynlluniau Gweithredu CGB Mamaliaid - rhoi ar waith**
Mae Steve Lucas wedi cynhyrchu cynllun gweithredu generig drafft ar gyfer ystlumod. Mae IM wedi awgrymu na ddylid cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â rhwymedigaethau statudol, e.e. hysbysu safleoedd, asesu ceisiadau cynllunio, mewn pethau i wneud ar Gynlluniau Gweithredu gan eu bod yn rhwymedigaeth ac yn anodd adrodd arnynt. Er hynny, cytunwyd y dylid cyfeirio atynt yn y Cynlluniau Gweithredu o hyd i sicrhau darlun llawn o'r gweithgarwch perthnasol yr oedd yn ei gynnal.

Awgrymwyd y dylem fod yn gofyn i'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau am gyngor ar fformat y Cynlluniau Gweithredu. Er hynny, nodwyd mai diben y Cynlluniau Gweithredu yw darparu cyngor i CGBLl ar yr hyn y dylent fod yn ei wneud a hefyd fel trosol ar gyfer dangos yr angen am wneud darnau penodol o waith (e.e. ceisiadau am ariannu neu ddylanwadu ar bolisi). Mae'n bosib y bydd angen ychwanegu peth naratif yn esbonio diben y cynllun.

**PWYNT GWEITHREDU 2**: Steve i adolygu cynlluniau gweithredu ystlumod, cwblhau'r cynllun gweithredu generig ar gyfer ystlumod a'i gylchredeg.
**PWYNT GWEITHREDU 3**: Liz i adnabod p'un a ellir cyfuno unrhyw rai o'r cynlluniau gweithredu mamaliaid sy'n weddill i'r cynllun trosgynnol.

Glastir – cyfarfu Steve â Chris Tucker i drafod cynllun coetiroedd Glastir ac ystlumod. Mae wedi cynhyrchu taenlen yn gosod allan pa rywogaethau a allai elwa o bob un o'r rhagnodiadau. Roedd yn ymgais i bennu sut mae polisi coedwigaeth yn gweddu i ystlumod a pha un a oedd unrhyw fylchau ai beidio.
**PWYNT GWEITHREDU 4**: Steve i gylchredeg y daenlen Glastir ac ystlumod eto

**5. Prosiectau â blaenoriaeth a chyfleoedd ariannu**
Coladu data'n mynd yn fwy bratiog gyda LRC, NBN, BRC i-Spot etc. Nid ymddengys y ceir un ystorfa sengl ar gyfer data. Gofynnodd SL fod angen i CCGC, fel asiantaeth statudol, ddatrys hyn. Mynegwyd pryderon y dylai data fod ar gael ar gyfer polisi a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â chynllunio.

**PWYNT GWEITHREDU 5**: LH/JM i godi pryderon ynghylch y llif data rhwng LRC, NBN gyda thîm data CCGC.
Nododd LW fod LRC yn mynegi pryderon am ddarparu eu holl ddata ar y NBN gan fod angen iddynt dderbyn digon o incwm i gynnal y busnes. Maent hefyd yn ochelgar o ran data NBN gan nad ydynt yn ystyried bod y safonau gwirio mor uchel.

**Draenogod –** bydd y Swyddog MS Cymru newydd yn helpu i gyflwyno'r arolwg draenogod.
**Pathewod –** mae angen gwaith parhaus ar fapio cysyllted, y gellid ei ddefnyddio wedyn fel elfen ragfynegi ar gyfer creu coetir Glastir. Gellid rhoi'r cyfryw waith gofodol i CGBLl a cheisio dylanwadu ar waith lleol ar gyfer pathewod. IM – yn cyflawni cryn dipyn o lwyddiant wrth ddenu gwirfoddolwyr. Daeth Jacqueline Hartley o hyd i 3 neu 4 safle newydd sy'n gweithio gyda gwirfoddolwyr.
**Llygod y dŵr –** mae'n bosib y bydd gan AyrAC prosiectau trapio mincod yn Llanelli. Bydd hefyd yn gwneud gwaith rheoli cynefinoedd gyda'r posibilrwydd o gymryd enghreifftiau o dan bwysau i'w bwydo i fyny a'u rhyddhau neu eu defnyddio yn y Gwendraeth - y dalgylch nesaf o Lanelli.
**Ystlumod Coetir Prin –** gwaith modelu cynefinoedd ar waith. Nid yw arian CCGC i redeg 3 gweithdy gyda gwirfoddolwyr ar gael mwyach. Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cam nesaf pan fydd gennym fapiau modelu. Mae angen ariannu o hyd i redeg y gweithdai a chyfarpar ychwanegol. Byddai angen rhwydi mân a maglau telyn ar gyfer gwaith Bechstein.
**PWYNT GWEITHREDU 6:** Jean i roi diweddariad ar waith mapio ystlumod coetir prin
**PWYNT GWEITHREDU 7:** Jean, Henry a Steve i ystyried y camau nesaf ar gyfer y prosiect ystlumod coetir prin a pha un a fyddai'n bosib ai beidio i ymgeisio am arian Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Gallai fod problem o ran amseru.
**YPLl** – gwaith modelu'n mynd yn ei flaen.
**PWYNT GWEITHREDU 8:** Jean i ddarparu diweddariad ar y prosiect Landscapes for Lessers

**Llygod y cynhaeaf –** mae canlyniadau o Gaer yn dangos bod y dechneg potiau abwyd yn gweithio. Bydd treialu'n parhau ar safleoedd eraill. Nododd Lizzie y cafwyd llwyddiant wrth annog llygod y cynhaeaf i ddefnyddio gorsafoedd bwydo ym Mharc Slip. JMcP i ymweld i edrych ar y dulliau sy'n cael eu defnyddio. Gellid rhedeg diwrnod hyfforddiant ym Mharc Slip.
**PWYNT GWEITHREDU 9:** Jenny, Ceri a Lizzie i drefnu dyddiad hyfforddi llygod y cynhaeaf yng ngwarchodfa Parc Slip WTSWW.

**Dyfrgwn –** bydd y prosiect MISE yn canolbwyntio ar ddalgylch Dwyryd, arfordir Sir Benfro ac o bosib dalgylch Cefni ar Ynys Môn. Bydd Catrin Slade yn coladu cofnodion arfordirol a gasglwyd gan y prosiect MISE hyd yma.

**Gwiwerod Coch –** llwyddodd MWRSP i dderbyn ariannu gan y gronfa ERD. Mae'n flaenoriaeth o hyd i'r prosiect dderbyn ariannu pellach. Mae Fforwm Gwiwerod Cymru'n cwrdd yr wythnos nesaf. .

**Ystlumod –** Gwaith VWT i wahardd YPM o glwydi YPLl yn mynd yn ei flaen.

VWT yn cynllunio arolwg **ffwlbartiaid** DU gyfan. Bydd y ffocws ar ledaeniad yr amrediad yng nghanolbarth Lloegr, ond hefyd ar rai ardaloedd yng Nghymru nad oes unrhyw gofnodion ar eu cyfer ar hyn o bryd.

Hefyd yn ystyried croesrywedd/mewnfynediad ffuredau gwyllt o Gaerdydd.

Tynnodd Steve sylw at y ffaith bod SITA wedi sefydlu panel ariannu ar gyfer Cymru. Mae angen i geisiadau fod o fewn 10 i 20 km o safleoedd tirlenwi.

**6. Rhaglen Waith FfGBMC**
Cafwyd trafodaeth parthed eitem 6 y rhaglen waith, mewn perthynas â'r angen am wella cysylltiadau rhwng Grwpiau Ecosystemau ac CGBLl. Gellid gofyn i Grwpiau Ecosystemau roi diweddariad ar waith gyda rhywogaethau. Mynegodd Iolo bryderon y ceir ychydig iawn o gyswllt rhwng y Grwpiau Ecosystemau a'r CGBLl, er y cydnabuwyd bod hyn yn amrywio'n rhanbarthol ar draws Cymru.

Trafodwyd y rhaglen waith FfGBMC er mwyn adnabod diweddariadau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Teimlwyd bod y rhan fwyaf o'r eitemau a restrwyd yn berthnasol o hyd, ond awgrymodd Iolo y gallai'r rhaglen waith fod yn fwy strwythuredig gyda chamau gweithredu a dyddiadau targed penodol.

Cytunwyd bod FfGBMC yn ddefnyddiol o ran ei ddiben, yn enwedig wrth wneud yn sicr nad ydym i gyd yn gweithio ar wahân i'n gilydd. Mae FfGBMC hefyd yn pennu fframwaith ar gyfer adnabod bylchau a blaenoriaethau ar gyfer meysydd gwaith. Mae'n helpu hefyd i roi ffocws ac arweiniad i CGBLl ynghylch yr hyn y dylent fod yn ei wneud. Nododd Steve mai gwahaniaeth arwyddocaol rhwng FfGBMC a GARh yw ein bod ni'n tueddu i fod â ffocws mwy ymarferol yn hytrach na cheisio dylanwadu ar bolisi.

Cytunwyd y byddai'n werthfawr cael cadeiryddiaeth gylchredol.

**7. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a phwyntiau gweithredu**
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.
*PWYNT GWEITHREDU 1 - Liz i anfon rhestr i brosiectau a ariannwyd gan ERD LlC i'r grŵp.* Wedi'i Gwblhau.
*PWYNT GWEITHREDU 2 – JM i anfon nodyn allan ar y cyfarfod UKWVSG.* Wedi'i Gwblhau
*PWYNT GWEITHREDU 3 – Lizzie i wirio gyda Rob a yw'r cofnodion llygod y dŵr diweddaraf wedi'u cynnwys yn y prosiect mapio.* Mae WT yn dal unrhyw ddata y maent yn ei dderbyn yn lleol. Nid yw'r set ddata a goladwyd gan WT ar lefel y DU yn rheolaidd ac felly mae'n gywir hyd at y pwynt hwnnw - tua 3 blynedd yn ôl.
*PWYNT GWEITHREDU 4 - CCGC i ofyn am gynrychiolydd CGBLl ar gyfer Gogledd Cymru.* Cario **PWYNT GWEITHREDU 10 drosodd**
*PWYNT GWEITHREDU 5 - CCGC i gylchredeg diweddariad partneriaid terfynol.* Wedi'i Gwblhau.
*PWYNT GWEITHREDU 6 – LH/JM i fynd yn ôl at Julia/Tracey cyn cyfarfod Cadeiryddion y Grŵp Ecosystemau ac ailystyried sut i fwrw 'mlaen gyda hwn.* Gohiriwyd y cyfarfod Cadeiryddion ac nid yw'n briodol mwyach.
*PWYNT GWEITHREDU 6 – Ceri i wirio a oes Fforwm Gogledd Cymru.* Mae Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru a Fforwm Bywyd Gwyllt Eryri.
*PWYNT GWEITHREDU 7 – Ceri i sefydlu cynhadledd fideo llygod y cynhaeaf.* Cario drosodd – caiff ei roi ar waith ar yr un pryd â sefydlu diwrnod hyfforddiant llygod y cynhaeaf.
*PWYNT GWEITHREDU 8 – Jenny, Jean a Rob i drafod y prosiect geneteg llygod y dŵr yn MISE.* Cario drosodd. **PWYNT GWEITHREDU 11**

*PWYNT GWEITHREDU 9 – Liz a Jean i gysylltu â Kate am ddiweddariad ar yr Atlas Mamaliaid.* Diweddariad wedi'i gynnwys yn y diweddariadau partner terfynol ar gyfer y cyfarfod.
*PWYNT GWEITHREDU 10 – Jean a Liz i gylchredeg canlyniadau coladu data ar gyfer llygod y cynhaeaf etc mor fuan ag y maent ar gael.* Byddant ar gael yn fuan yn dilyn cwblhau adroddiadau Erthygl 17. **PWYNT GWEITHREDU 12**
*PWYNT GWEITHREDU 11 – SL i anfon taenlen dadansoddiad bylchau Glastir at Jean.* Wedi'i Gwblhau.

**7. Unrhyw fusnes arall**
Arolwg agweddau Belaod Coed a Phobl VWT - hoffai Henry anfon allan at bawb i annog cynifer o bobl â phosib i'w gwblhau.

Nododd Lizzie y ceir pryderon ynghylch effaith cwtogiadau ar yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

**8. Dyddiad y cyfarfod nesaf**
Cytunwyd bod defnyddio fideo-gynadledda'n iawn a'i fod yn gwneud bod yn bresennol yn haws i rai o aelodau'r grŵp.
Dyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd nesaf: **25 Mehefin** (ffocws ar brosiect y Gymdeithas Famaliaid ac i gael ei gadeirio gan Iolo Lloyd) ac **8 Hydref**